Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd Plismona (PALG)

Pencadlys yr Heddlu
11 Medi 2019

COFNODION

Yn bresennol

Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Lee Jones – Cadeirydd (LJ)	Prif Weithredwr (Interim)
Hannah Jenkins-Jones (HJJ)	Arweinydd Strategol Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb
Sarah Mahon (SM)	Swyddog Ymgysylltu a Sicrwydd
Jackie Trow (JT)	Arweinydd Strategol Ansawdd, Safonau a Chydymffurfio

Heddlu De Cymru

Arolygydd Jeff Burton (JB)	Ymgyrchoedd Arbenigol
Uwch-arolygydd Martyn Stone (MS)	Pennaeth Plismona Lleol a Sicrwydd
Martyn Jones (MJ)	Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Aelodau PALG

Steve Bartley (SB)	Pobl Hŷn Cymru
Helen Gardiner (HG)	Ffynnu Cymorth i Fenywod
Jasmine Jones (JJ)	Sipsiwn a Theithwyr Cymru
Reynette Roberts (RR)	Oasis Caerdydd
Holly Taylor (HT)	Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Emma Tobutt (ET)	Chwaraeon Cymru
Steve Warner (SW)	Plafform
Elena Williams (EW)	Ffocws Dioddefwyr De Cymru

1. Cofnodion a chamau gweithredu

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir.

Rhoddodd JT ddiweddariad mewn perthynas â'r adborth ar gwynion a gasglwyd o'r cyfarfod diwethaf. Dywedodd JT wrth y grŵp fod adroddiad yn crynhoi'r adborth a'r camau nesaf wrthi'n cael ei orffen ac y byddai'n cael ei rannu â PALG unwaith y byddai wedi'i gwblhau.

Rhoddodd LJ y newyddion diweddaraf mewn perthynas â'r adolygiad barnwrol o ddefnydd Heddlu De Cymru o dechnoleg adnabod wynebau awtomataidd (AFR). Nododd LJ fod PALG wedi trafod AFR yn flaenorol a bod y gwaith craffu a goruchwylio wedi'i ystyried a'i grybwyll fel rhan o'r achos. Dywedodd LJ y byddai aelodau PALG yn cael eu gwahodd i rannu eu barn ar gynigion Heddlu De Cymru wrth i'r dechnoleg AFR barhau i gael ei datblygu. Nododd LJ hefyd fod gwahoddiad i weld y dechnoleg AFR ar agor o hyd, pe bai gan unrhyw ddiddordeb mewn deall mwy am y ffordd y mae'r dechnoleg yn gweithio.

2. Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd – Stelcio ac Aflonyddu

Gwahoddodd LJ HJJ i roi trosolwg o adroddiad at wraidd y mater y Comisiynydd ar stelcio, aflonyddu a rheolaeth orfodol, a gyflwynwyd i'r Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd

ym mis Medi. Er budd aelodau newydd, rhoddodd HJJ drosolwg cyffredinol o broses graffu'r Comisiynydd a chyfraniad PALG at y rhaglen graffu.

Rhoddodd HJJ grynodeb o'r adroddiad at wraidd y mater a thynnodd sylw at ganfyddiadau allweddol yn seiliedig ar yr adborth a gasglwyd gan ddioddefwyr, partneriaid a swyddogion a staff yr heddlu. Nododd HJJ broblemau cyson lle roedd dioddefwyr wedi mynegi anfodlonrwydd â'r diffyg cyswllt a diweddariadau gan swyddogion. Roedd yn amlwg bod hyn wedi cael effaith ar brofiadau dioddefwyr, yn enwedig dioddefwyr sy'n agored i niwed, a oedd yn teimlo'n fwy agored i niwed ac ofnus. Roedd dioddefwyr ac asiantaethau partner hefyd yn teimlo bod angen i swyddogion gael mwy o ddealltwriaeth o fregusrwydd emosiynol mewn perthynas â stelcio, aflonyddu a rheolaeth orfodol.

Nododd HJJ fod nifer o bartneriaid wedi nodi bod llai o ddealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o reolaeth orfodol a bod angen gwneud mwy o waith codi ymwybyddiaeth er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn fwy ymwybodol y gallent roi gwybod i'r heddlu. Hefyd, gwnaed nifer o awgrymiadau i ariannu a hyrwyddo achosion llwyddiannus, er mwyn helpu i gynyddu hyder i roi gwybod am achosion a rhoi sicrwydd i ddioddefwyr y byddai'r heddlu yn gwrando arnynt ac yn eu cymryd o ddifrif.

Dywedodd HJJ, yn dilyn y cyfarfod craffu ym mis Medi, y cytunwyd ar nifer o argymhellion er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd. Roedd yr argymhellion wedi cael eu rhannu'n dair thema allweddol, a oedd yn cynnwys cyfathrebu a hyfforddiant mewnol, darparu gwasanaeth a chyfathrebu allanol. Nododd HJJ fod disgwyl i'r heddlu ddarparu diweddariadau rheolaidd yn erbyn pob un o'r argymhellion. Anogodd HJJ aelodau PALG i ofyn am ddiweddariadau mewn perthynas ag unrhyw un o'r argymhellion y cytunwyd arnynt ym mhob un o'r pynciau at wraidd y mater.

Cyfeiriodd SB at ddynameg gymhleth rheolaeth orfodol a phwysigrwydd deall yr ymddygiadau gwahanol y gall pobl hŷn eu profi. Roedd codi ymwybyddiaeth o'r mân wahaniaethau o ran ymddygiadau rheoli yn allweddol er mwyn annog dioddefwyr i adnabod yr arwyddion. Cyfeiriodd HJJ at yr amcan pobl hŷn yng Nghynllun Cydraddoldeb ar y Cyd y Comisiynydd a Heddlu De Cymru ac awgrymodd y gellid ystyried hyn drwy'r gwaith o gyflawni'r amcan hwnnw.

Cyfeiriodd HT at yr anawsterau o ran cyfleu'r negeseuon hyn i fewnfudwyr a gorfodi'r ffaith bod rheolaeth orfodol yn anghyfreithlon yn y DU, ni waeth beth fo'u diwylliant. Dywedodd HG wrth y grŵp am sgyrsiau parhaus â Llywodraeth Cymru ynghylch cael cyllid ar gyfer menywod mudol nad oeddent yn gallu cael gafael ar gronfeydd cyhoeddus.

Trafododd y grŵp bwysigrwydd sicrhau bod pob swyddog yn cael hyfforddiant rheolaidd ar stelcio, aflonyddu a rheolaeth orfodol. Dywedodd HJJ fod tîm y Comisiynydd yn fodlon bod pecynnau hyfforddi digonol ar waith ar gyfer recriwtiaid newydd. Fodd bynnag, roedd pryderon ynghylch y ffordd roedd hyfforddiant gloywi yn cael ei ddarparu i swyddogion a oedd wedi bod yn eu swyddi ers nifer o flynyddoedd. Dywedodd MS wrth y grŵp fod yr heddlu yn ymrwymedig i sicrhau bod hyfforddiant ychwanegol a phecynnau gwell ar waith ar gyfer swyddogion. Roedd yr heddlu wrthi'n adolygu'r ffordd y gellid defnyddio diwrnodau hyfforddi blynyddol yr heddlu i ymgorffori negeseuon wedi'u targedu i swyddogion presennol.

Trafododd y grŵp y ffordd y mae'r heddlu yn gweithio gyda sectorau a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n dod i gysylltiad â dioddefwyr neu sydd â chydberthynas â nhw. Cyfeiriodd HJJ at rai prosiectau partneriaeth presennol yr oedd y Comisiynydd wedi'u comisiynu gyda sefydliadau trydydd sector. Dywedodd AG wrth y grŵp fod ABMU yn cynnal rhaglen 'Gofyn a Gweithredu', sef hyfforddiant ar gyfer pob aelod o staff y bwrdd iechyd, er mwyn annog staff i gadw llygad am arwyddion camdriniaeth ddomestig. Croesawodd HJJ adborth ar y ffordd y gellid mabwysiadu dull unedig o fynd i'r afael â'r materion a drafodwyd mewn partneriaeth.

CAM GWEITHREDU – Tîm y Comisiynydd i ystyried y ffordd y gellid cynnwys rheolaeth orfodol wrth gyflawni'r amcan pobl hŷn yn y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd.

3. Stopio a Chwilio

Gwahoddodd LJ JB i roi'r newyddion diweddaraf mewn perthynas â stopio a chwilio, yn enwedig y defnydd o Adran 60. Rhoddodd JB drosolwg cryno o hanes stopio a chwilio a dywedodd wrth y grŵp fod y pwerau wedi'u cyflwyno fel adnodd ataliol. Dywedodd JB wrth y grŵp am y newidiadau allweddol i bwerau stopio a chwilio, a ddiwygiwyd yn ddiweddar gan y Swyddfa Gartref mewn ymateb i'r cynnydd yn nifer y troseddau treisgar. Rhoddodd JB eglurhad o'r defnydd o Adran 60 a chyfeiriodd at enghreifftiau penodol lle roedd yr heddlu wedi defnyddio Adran 60. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, roedd yr heddlu wedi awdurdodi pwerau Adran 60 ar 5 achlysur.

Trafododd y grŵp y gwaith o dargedu unigolion lle roedd pwerau Adran 60 wedi cael eu hawdurdodi. Roedd nifer isel yr achosion o chwilio o dan Adran 60 yn awgrymu bod yr heddlu'n parhau i fod yn ddetholus o ran pwy roeddent yn ei chwilio. Dywedodd JB fod lefel uchel o waith targedu wedi'i arwain gan gudd-wybodaeth o dan Adran 60 yn parhau i gael ei wneud a bod disgwyl i swyddogion barhau i ddefnyddio synnwyr cyffredin wrth ddefnyddio'r pwerau. O dan Adran 1 o stopio a chwilio, byddai angen sail resymol ar swyddogion yr heddlu dros chwilio unigolyn. Fodd bynnag, roedd Adran 60 yn galluogi cylch gwaith ehangach o chwilio. Roedd nifer o aelodau PALG wedi'u synnu wrth weld bod cyn lleied o ddefnydd o Adran 60 wedi cael ei wneud. Roedd yn ymddangos bod canfyddiad ei bod yn cael ei defnyddio'n llawer amlach nag yr oedd mewn gwirionedd.

Trafododd y grŵp y cynnydd yn y defnydd o Adran 60 yn 2019. Gofynnodd JJ a oedd yr heddlu yn rhagweld y byddai'r niferoedd yn parhau i gynyddu ac a fyddai Adran 60 yn cael ei defnyddio'n fwy yn y dyfodol nag yr oedd wedi'i defnyddio yn hanesyddol. Yn sgil y cynnydd yn nifer y troseddau treisgar, yn enwedig troseddau'n ymwneud â chyllyll, dywedodd JB ei fod yn rhagweld y byddai'r cynnydd yn nifer yr achosion o stopio a chwilio yn ogystal â'r defnydd o Adran 60 yn parhau. Nododd MS, er bod yr heddlu yn stopio a chwilio mwy o bobl, fod y rhesymau dros chwilio yn gryf a bod yr heddlu'n parhau i fod yn hyderus bod y pwerau'n cael eu cymhwyso mewn modd moesegol, teg a rhesymol.

Trafododd y grŵp y digwyddiad diweddar ym Mhontypridd lle awdurdodwyd Adran 60 yn dilyn adroddiadau gan y cyhoedd am anhrefn ar raddfa fawr ymhlith pobl ifanc. Dywedodd LJ wrth y grŵp fod yr achos penodol hwn hefyd wedi cael ei drafod mewn cyfarfod diweddar o'r Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd a bod tîm y Comisiynydd yn falch o ddeall bod y defnydd o'r

pwerau'n cael eu cymryd o ddifrif, gyda'r effaith ar y gymuned yn chwarae rhan flaenllaw yn y penderfyniad.

Gofynnodd ET a oedd yr heddlu'n profi dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd, er mwyn cael syniad o ganfyddiadau a dealltwriaeth o'r pwerau. Awgrymodd ET y byddai'n ddefnyddiol ystyried casglu adborth ar-lein drwy bleidleisiau Twitter ac arolygon fel sylfaen. Dywedodd HJJ wrth y grŵp am gynlluniau'r Comisiynydd i ymchwilio i ganfyddiadau cymunedol, gyda'r nod o brofi dealltwriaeth, canfyddiad a phrofiad, yn enwedig ymhlith pobl ifanc. Dywedodd HJJ wrth y grŵp hefyd fod tîm y Comisiynydd wedi datblygu taflenni yn rhoi gwybod i gymunedau am eu hawliau o ran cael eu stopio a'u chwilio. Croesawodd HJJ hefyd gyfleoedd i dîm y Comisiynydd hyrwyddo'r wybodaeth hon drwy bartneriaid. Awgrymodd RR y byddai hefyd yn ddefnyddiol ystyried datblygu opsiynau hygyrch eraill i bobl gael gafael ar y wybodaeth hon, megis animeiddiadau neu fideos.

Trafododd y grŵp ddulliau y gallai'r heddlu eu defnyddio i hysbysebu'r defnydd o Adran 60 yn well er mwyn helpu i gynyddu dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd. Awgrymodd EW y byddai PCSOs yn adnodd gwych i'w ddefnyddio, am eu bod yn wyneb cyfarwydd yn y gymuned, a fyddai'n ddelfrydol o ran helpu i feithrin dealltwriaeth. Cytunodd y grŵp y byddai hyn yn ddull cadarnhaol a chytunodd MS y gellid datblygu briffiau ar gyfer PCSOs, er mwyn eu gwneud yn ymwybodol o gyfleoedd i godi hyn yn y gymuned. Awgrymodd JT ei bod yn werth ystyried yr amserlen ar gyfer rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd fesul tipyn, megis y cyfnod cyn misoedd yr haf.

Cytunodd y grŵp y byddai'n ddefnyddiol ailedrych ar yr eitem hon ar yr agenda ymhen blwyddyn er mwyn adolygu'r ffigurau a'r tueddiadau. Gellid hefyd graffu ar y data yn well pan fyddai set ddata fwy ar gael i'w adolygu.

CAM GWEITHREDU - Tîm y Comisiynydd i ystyried datblygu fformatau hygyrch o wybodaeth am stopio a chwilio.

CAM GWEITHREDU - Martyn Stone i ddatblygu briff ar Adran 60 er mwyn i PCSOs ei ddefnyddio yn y gymuned.

4. Cynlluniau ar gyfer y grŵp yn y dyfodol

Dywedodd LJ wrth y grŵp am gynlluniau tîm y Comisiynydd i gynnwys cynghorwyr annibynnol fel aelodau. Byddai hyn yn galluogi safbwyntiau ychwanegol. Dywedodd LJ hefyd eu bod yn ystyried rhoi'r cyfle i rôl y cadeirydd gael ei throsglwyddo i aelod o PALG. Fodd bynnag, byddai'r ysgrifenyddiaeth yn parhau gyda thîm y Comisiynydd. Nododd LJ ei ymrwymiad i sicrhau bod y grŵp yn cadw ei allu i fod yn annibynnol ac yn gyfaill beirniadol. Croesawodd y grŵp y cynigion i gynnwys cynghorwyr annibynnol.

Ailbwysleisiodd LJ bwysigrwydd y grŵp a nododd fod proffil y grŵp y cynyddu a'i fod yn uchel ei barch ym mhob rhan o'r heddlu, a bod Panel yr Heddlu a Throseddu yn cyfeirio ato. Dywedodd LJ y byddai cylch gorchwyl yn nodi'r gwahaniaethau o ran rôl cynghorwyr annibynnol a chynrychiolwyr sefydliadol yn cael ei ddatblygu'n fuan. Byddai'r cynigion yn cael eu dosbarthu i'r grŵp ar ôl iddynt gael eu cwblhau.

CAM GWEITHREDU - Tîm y Comisiynydd i rannu cynigion Cynghorwyr Annibynnol ag aelodau PALG.

Tabl Camau Gweithredu

Cam Gweithredu	Disgrifiad	Unigolyn sy'n Gyfrifol
1	Tîm y Comisiynydd i ystyried sut y gellid cynnwys rheolaeth orfodol wrth gyflawni'r amcan pobl hŷn yn y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd.	Hannah Jenkins-Jones
2	Tîm y Comisiynydd i ystyried datblygu fformatau hygyrch o wybodaeth stopio a chwilio ar gyfer y cyhoedd.	Sarah Mahon
3	Datblygu briffiau ar Adran 60 er mwyn i PCSOs eu defnyddio yn y gymuned.	Martyn Stone
4	Rhannu cynigion Cynghorwyr Annibynnol ag aelodau PALG.	Lee Jones/Hannah Jenkins-Jones